**Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) 2023/24 – 2027/28**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| **Arweinydd strategaeth CAYC:** | Gary Clifford, Cyfarwyddwr Gweithredol Masnacheiddio |
| **E-bost:** | g.clifford@uwtsd.ac.uk |

## Adran A: Trosolwg

### 1. Uchelgeisiau strategol

*Rhowch drosolwg o ddull pum mlynedd eich sefydliad o safbwynt cefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a sut y caiff y rhain eu cefnogi gan CAYC. Efallai y byddwch am amlygu meysydd eang yr ydych yn eu targedu, a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'ch cenhadaeth sefydliadol a'ch strategaethau mewnol.*

[Uchafswm o 250 gair]

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), drwy ei huned INSPIRE, yn ymroddedig i ddatblygu strategaethau cyfnewid gwybodaeth, ymchwil a chenhadaeth ddinesig dros y pum mlynedd nesaf. Mae dull yr adran o gyfnewid gwybodaeth yn amlochrog, gan gwmpasu gweithgareddau ei His-adrannau Ymchwil, Masnachol, Menter ac Ymgysylltu Dinesig.

- Nod yr Is-adran Ymchwil yw ysgogi rhagoriaeth ymchwil, gan sicrhau bod ei hymdrechion yn cyd-fynd â'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr (2019), y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth, y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) (2027), a'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi (2022 - 2027). Trwy weithgareddau sy'n seiliedig ar ymchwil, mae'n ymdrechu i feithrin arloesedd, cydweithredu a chyfrannu at ddatblygu a masnacheiddio rhanbarthol.
- Mae amcanion yr Is-adran Fasnachol yn cynnwys meithrin arloesedd, hyrwyddo ymgysylltu â diwydiant, a chynyddu potensial masnachol y brifysgol. Mae'r is-adran hefyd yn ymwneud â Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) a Phartneriaethau Smart (SP) wrth hwyluso cydweithio rhwng ymchwilwyr academaidd a busnesau at ddibenion masnachol.
- Mae'r Is-adran Menter yn goruchwylio seilwaith cefnogaeth ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth, gan gefnogi busnesau newydd gan fyfyrwyr, graddedigion a staff (gan gwmpasu cwmnïau Deillio i mewn a Deillio). Cyflwynir hyn trwy fodel helics triphlyg ar gyfer arloesi, gan gydweithio â busnesau a'r llywodraeth i feithrin datblygiad economaidd a chymdeithasol. Mae arbenigedd ein sefydliad ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol, yr Athrofa Ryngwladol ar gyfer Datblygiad Entrepreneuraidd Creadigol (ARDEC)

| |
|---|
| (Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2022-2027) yn llywio pob ymyriad.<br>● Mae'r Is-adran Ymgysylltu Dinesig yn hyrwyddo ymrwymiad PCYDDS i effaith gymdeithasol, gan sicrhau bod ei gweithgareddau yn y gymuned ac mewn ysgolion yn cyd-fynd â nodau lleol a rhyngwladol fel Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.<br>Mae CAYC yn hanfodol bwysig o ran cefnogi ymdrechion ymchwil ac arloesi PCYDDS, gan ysgogi effaith gymdeithasol ac economaidd a gwarchod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ar yr un pryd. Trwy ddefnyddio cyllid CAYC, mae PCYDDS yn gwella mentrau cydweithredu, yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth, ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws sectorau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â chenhadaeth PCYDDS o greu cyfleoedd, rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod, a rhoi dysgwyr yn gyntaf. Trwy feithrin y Gymraeg, mae PCYDDS yn cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac yn cyfrannu at dwf economaidd Cymru. Trwy bartneriaethau a alluogir gan CAYC, mae PCYDDS yn mynd i'r afael â heriau, yn sbarduno datblygiad economaidd, ac yn meithrin arloesedd yn lleol ac yn fyd-eang. |
| **2. Grant Capasiti** |
| *Rhowch rywfaint o naratif ar sut mae'ch sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti o £250k sydd wedi'i gynnwys yn CAYC. Sut bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a gwella gallu a chymell a gwella perfformiad wrth gyfnewid gwybodaeth?*<br>[Uchafswm o 250 gair] |
| Mae Grant Capasiti CAYC yn rhoi sylfaen ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi gwerthfawr i'r Brifysgol. Mae'r gronfa hon, sydd wedi'i thargedu, yn cynnig sefydlogrwydd ac amddiffyniad i'r sefydliad wrth i'r Brifysgol ddatblygu ei strategaethau a'i chynlluniau ymchwil ac arloesi. Ar hyn o bryd mae'r sefydliad yn cyfuno'r grant capasiti ag elfen cronfa CAYC sy'n seiliedig ar gymhelliant ynghyd â'i gronfeydd mewnol i fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ymchwil ac arloesi (enghreifftiau isod).<br>Defnyddiwyd y cronfeydd Grant Capasiti hyn yn bennaf i gefnogi cynlluniau ymchwil ac effaith y Brifysgol a chynyddu ei gallu i ddenu incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau (h.y. cyfleoedd Ymchwil, Grant a chyfleoedd Masnachol). Yn ogystal, mae'r gronfa wedi caniatáu i'r Brifysgol gefnogi dyheadau menter ei staff a'i myfyrwyr a hyrwyddo ein cynlluniau Ymgysylltu Dinesig.<br>Dyma bedair enghraifft yn unig o'r hyn y bydd y Grant Capasiti yn ei gefnogi'n rhannol dros y cyfnod strategol:<br>1. **Fframwaith Ceisiadau:** Defnyddio cronfa o arbenigwyr ysgrifennu ceisiadau (a ddatblygwyd yn y rownd flaenorol o gyllid CAYC) sy'n gallu cefnogi'r Brifysgol gyda'i hagenda twf masnachol drwy helpu'r brifysgol i ymateb yn gyflym i gyfleoedd ymchwil, grant a masnachol yng Nghymru, y DU, a thu hwnt.<br>2. **Canolfannau Ymchwil:** Rhoi cymorth strategol i ganolfannau ymchwil sefydledig ar draws y Brifysgol sydd naill ai â photensial o ran twf masnachol (h.y., Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC), Gweithgynhyrchu |

| |
|---|
| Peirianneg Dylunio Uwch (MADE), **NEU** botensial academaidd / |

ymchwil sylweddol (h.y, Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATIC), y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (CAWCS), a'r Athrofa Ryngwladol ar gyfer Datblygiad Entrepreneuraidd Creadigol (ARDEC).

3. **Rhaglen Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu:** Parhau i gefnogi Rhaglen Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu PCYDDS. Rôl drawsadrannol sy'n uno hyd at 20 (y flwyddyn) o 'ysgogwyr newid' y Brifysgol yn ffurfiol gyda phedair colofn weithredol INSPIRE (Ymchwil, Masnachol, Menter, Ymgysylltu Dinesig). Bydd y rhaglen hon yn cefnogi'r unigolion hynny sy'n awyddus i gael effaith amlwg a dylanwadu ar gymdeithas, uchelgeisiau masnachol y Brifysgol, a gwneud economi Cymru yn gryfach.
4. **Rhaglen Cyflymydd Ymchwil ac Effaith (RIAP).** Bydd rhaglen RIAP yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Ymchwil ac Arloesi’r brifysgol, sy'n sail i allu PCYDDS i gyfnewid gwybodaeth. Mae hyn yn darparu cymorth hanfodol ar gyfer cyfnodau o absenoldeb ymchwil i ddatblygu ceisiadau am gyllid a chwblhau allbynnau ymchwil (gyda ffocws ar UKRI), gan feithrin cyfleoedd cydweithredol trwy bresenoldeb mewn cynadleddau a chyfrifon cyflymydd effaith.

| **Adran B: Cynnwys penodol** |
|---|
| **3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm** |
| *Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol.*<br><br>*Rhowch fanylion sut y bydd CAYC yn cael ei ddefnyddio i alluogi eich sefydliad i dyfu ei incwm allanol fel y'i mesurir gan HE-BCI. Beth yw'r meysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf? Sut bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ar fuddsoddiadau CAYC blaenorol? Pa weithgaredd newydd fydd yn cael ei gefnogi? Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio yn nhermau effaith CAYC ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru.*<br><br>*Amlygwch ganolfannau rhagoriaeth ymchwil sydd eisoes yn gweithredu fel canolfannau arloesi.*<br><br>[Uchafswm o 500 gair] |
| Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn bwriadu defnyddio CAYC i gryfhau ei hymdrechion i ehangu incwm allanol a chyfrannu at ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru.<br><br>Nod y mentrau sy'n dilyn yw creu incwm allanol, meithrin entrepreneuriaeth, hwyluso cyfnewid gwybodaeth, a sbarduno trawsnewidiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae ffocws strategol PCYDDS ar ymchwil, arloesedd, menter ac ymgysylltu dinesig yn cyd-fynd yn gryf ag amcanion y gronfa ac yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo lles cymdeithasol ac economaidd cyffredinol Cymru.<br><br>Yn y cyfnod strategol newydd hwn, mae PCYDDS wedi nodi sawl maes buddsoddi allweddol. Defnyddir y cyllid a ddarperir gan CAYC i adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol a chefnogi gweithgareddau newydd. Dyma ychydig o enghreifftiau:<br><br>1. **Cymell Perfformiad Staff (Effaith ac Ymchwil):** Bydd cronfeydd CAYC yn cael eu defnyddio i gymell a gwobrwyo perfformiad staff mewn pedwar maes: Ymchwil, Masnacheiddio, Menter ac Ymgysylltu Dinesig. Nod y Polisi Cymell strategol hwn yw gwella strategaethau cyfnewid gwybodaeth, ymchwil a chenhadaeth ddinesig y brifysgol.<br><br>2. **Menter ac Entrepreneuriaeth:** A ninnau wedi'n cydnabod fel Prifysgol Entrepreneuraidd Ewropeaidd y Flwyddyn 2022, ac ar hyn o bryd yn y safle 1af yn y DU am fusnesau graddedig sy'n gweithredu, byddwn yn cadarnhau ein safle fel lle blaenllaw ar gyfer menter yng Nghymru a'r DU. Bydd cyllid CAYC yn cael ei ddefnyddio i wella 'Grant Entrepreneuriaeth' y brifysgol, gan ddarparu buddsoddiad a chymorth ar gyfer ymdrechion entrepreneuraidd staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr, gan feithrin ffyniant cymdeithasol ac economaidd.<br><br>3. **Fframwaith Ysgrifenwyr Ceisiadau:** Fel uchod.<br><br>4. **Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu:** Fel uchod. |

5. **Adnoddau hygyrch ar gyfer Partneriaid Masnachol:** Mae PCYDDS yn buddsoddi'n barhaus mewn offer ac adnoddau y gellir eu darparu i bartneriaid masnachol neu gydweithwyr. Yn ystod y cyfnod strategol nesaf, bydd y brifysgol yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i wneud ei hasedau, yn bennaf yn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru (WISA), yn hygyrch i gwmnïau gweithgynhyrchu perfformiad uchel. Bydd system yn cael ei datblygu i ganiatáu i sefydliadau cymeradwy gael mynediad i'r adnoddau hyn yn fasnachol ar 'sail ar-alw'.
6. **Rheoli Prosiectau a Chymorth Ymchwil:** Bydd cyllid CAYC yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi rheolwyr prosiect / prif ymchwilwyr i wneud y mwyaf o fanteision cyflawni prosiectau. Yn ogystal, bydd buddsoddiadau yn y platfform ResearchConnect (a elwid gynt yn GrantFinder) a phyrth eraill sy'n cynnig cyfleoedd yn galluogi staff ledled y brifysgol i gael mynediad at gyfleoedd ymchwil, grant a masnachol i gefnogi eu gweithgareddau addysgu ac ymchwil.
7. **Partneriaethau Smart a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth:** Mae PCYDDS wrthi'n datblygu Partneriaethau Smart a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, yn y sectorau gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch i ddechrau, ond gyda'r posibilrwydd o ehangu i feysydd fel iechyd a'r diwydiannau creadigol. Bydd y prosiectau hyn a arweinir gan bartneriaeth yn cryfhau cydweithrediad y brifysgol â diwydiant ac yn cyfrannu at dwf economaidd.
8. **Prosiectau Seilwaith:** Yn ystod y cyfnod strategol newydd hwn, mae prosiectau seilwaith PCYDDS, sef; Matrics Arloesi (Abertawe), Yr Egin 2 (Caerfyrddin), Tir Glas (Llanbedr Pont Steffan) yn gatalyddion ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid allanol. Gwahoddir endidau preifat i feddiannu'r adeiladau newydd hyn a chydweithio â'r brifysgol mewn meysydd academaidd penodol, gan feithrin partneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr a chreu incwm.
9. **Cyfnewid Gwybodaeth ym maes Iechyd a'r Diwydiannau Creadigol:** Mae PCYDDS yn anelu at ddatblygu perthynas â diwydiant yn y sectorau iechyd a chreadigol. Trwy Bartneriaethau Smart a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, bydd y brifysgol yn ymateb i gyfleoedd drwy ATIC a Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI), gan ganolbwyntio ar sectorau fel iechyd a diwydiannau creadigol. Bydd y cydweithrediad hwn yn creu incwm, yn ysgogi arloesedd, ac yn cyfrannu at dwf economaidd sy'n benodol i'r sector.
10. **Masnacheiddio Ymchwil:** Yn y tymor hir, mae PCYDDS yn anelu at wella masnacheiddio ymchwil drwy gyllid CAYC. Trwy fuddsoddi mewn adnoddau, arbenigedd, a mecanweithiau cymorth, bydd y brifysgol yn hwyluso'r broses o drosi canlyniadau ymchwil yn gymwysiadau, cynhyrchion neu wasanaethau ymarferol. Bydd hyn nid yn unig yn creu incwm ond hefyd yn sbarduno twf economaidd ac yn cyfrannu at ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru.

| **3.1 Rhowch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) strategol eich sefydliad ar gyfer gweithgarwch masnacheiddio a chynhyrchu incwm:** |
|---|
| Gweler **Atodiad A: DPA yr Is-adran Ymchwil** a<br>Gweler **Atodiad B: DPA yr Is-adran Fasnachol** |

| **4. Twf busnes newydd a chymorth sgiliau** |
|---|
| *Amlinellwch y cymorth yr ydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd, cwmnïau deilliedig, a chwrdd â thargedau cynlluniau fel Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Darparwch wybodaeth ar ble y bydd CAYC yn ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, a lle mae'n caniatáu ichi fuddsoddi mewn twf pellach. Amlinellwch sut y bydd CAYC yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesedd ar gyfer myfyrwyr, graddedigion ac aelodau staff. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylid fframio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru.* [Uchafswm o 500] |
| Bydd PCYDDS yn parhau i feithrin amgylchedd lle gall syniadau arloesol ffynnu, lle gall busnesau dyfu, lle gellir creu eiddo deallusol, a meithrin entrepreneuriaeth. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ac mae Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, o ran cyllid ac arbenigedd a rennir, yn rhan annatod o atgyfnerthu ein safle fel rhif 1 yn y DU ar gyfer busnesau graddedig sy'n dal i weithredu ar ôl 3 blynedd.<br><br>Bydd ein Cronfa Grant Entrepreneuriaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu'r cymorth a'r buddsoddiadau angenrheidiol i feithrin diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesedd ymhlith myfyrwyr, graddedigion a staff. Mae ymyriadau PCYDDS sy'n cyfrannu at ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru yn cynnwys:<br><br>1. **Cefnogaeth ar gyfer Busnesau Newydd a Chwmnïau Deillio** Bydd y Gronfa Grant Entrepreneuriaeth yn darparu buddsoddiadau deallus i fyfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, staff, a chwmnïau deillio i mewn posibl PCYDDS. Trwy gydweithio â meddylwyr blaengar (h.y. staff a myfyrwyr) a chyd-fynd â meysydd arbenigedd academaidd, nod y brifysgol yw datblygu mentrau busnes newydd. Bydd CAYC yn galluogi'r brifysgol i ddyrannu adnoddau a chyllid i gefnogi sefydlu busnesau newydd a mentrau deillio a'u twf.<br>2. **Gwella'r Amgylchedd Entrepreneuraidd:** Mae gan PCYDDS amgylchedd entrepreneuraidd rhagorol i'w myfyrwyr (a'i staff), gan feithrin diwylliant o arloesi ac entrepreneuriaeth ar draws cymuned y brifysgol. Bydd cyllid CAYC yn galluogi'r brifysgol i weithredu rhaglenni menter, mentrau mentoriaeth, ac adnoddau sy'n hyrwyddo sgiliau entrepreneuraidd a datblygiad meddylfryd.<br>3. **Hyfforddiant a Meithrin Gallu:** Rydym yn ymroddedig i ymgorffori egwyddorion entrepreneuriaeth a menter yn y cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod myfyrwyr ar draws amrywiol raglenni yn derbyn yr addysg a'r sgiliau angenrheidiol i ragori mewn ymdrechion entrepreneuraidd (strategaeth Cyflogadwyedd PCYDDS (2022/26, t19). Mae Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid LlC yn rhan annatod o gefnogi ein gweithgareddau allgyrsiol, wrth ariannu gweithdai 'ymbaratoi'; |

sgiliau cynllunio busnes, marchnata, cyllid a chyflwyno busnes. Mae'r gweithgaredd unigryw, ond ategol, gan CAYC, yn cynnwys DPP i academyddion ddylunio a chyflwyno gweithdai, seminarau, a/neu gyrsiau ar-lein cyd-destunol i ysgogi'r gallu creadigol ac arloesol sydd ei angen i adnabod cyfleoedd ar gyfer creu menter. Wedi hynny, darparu gweithdai codi ymwybyddiaeth Eiddo Deallusol i amddiffyn y creadigrwydd hwnnw.

4. **Arloesi Deallusrwydd Artiffisial:** Byddwn yn defnyddio pŵer Deallusrwydd Artiffisial i sbarduno arloesedd a gwella'r profiad entrepreneuraidd. Mae ein prosiectau'n cynnwys integreiddio technolegau Deallusrwydd Artiffisial, fel sgwrsfotiaid, i gefnogi dysgu a darparu cymorth wedi'i bersonoli. Rydym yn ymdrechu i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau Deallusrwydd Artiffisial, gan archwilio ffyrdd o integreiddio Deallusrwydd Artiffisial yn barhaus i addysg ac arferion entrepreneuriaeth.

5. **Mentora a Chyfleoedd Rhwydweithio:** Trwy gynyddu ein hymdrechion i wella ein hecosystem, gall entrepreneuriaid eginol elwa o ysbrydoliaeth, doethineb a gwybodaeth ymarferol entrepreneuriaid sefydledig, gan feithrin twf personol a phroffesiynol. Darpariaethau unigryw yw ein 'Modelau Rôl Cyn-fyfyrwyr Entrepreneuraidd', sy'n cefnogi a/neu'n hwyluso digwyddiadau a llwyfannau rhwydweithio lle gall entrepreneuriaid gysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfoedion, darpar fuddsoddwyr, a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

6. **Llwybr Dilyniant ar gyfer Cymorth Parhaus:** Mae’r llwybr dilyniant a drafodwyd uchod (gan ddefnyddio CAYC, Grant Entrepreneuriaeth, a chyllid Ymchwil a Datblygu LlC) yn dangos ymrwymiad y brifysgol a'r llywodraeth i gefnogi uchelgeisiau entrepreneuraidd ei staff a'i myfyrwyr. Bydd y brifysgol, yn ystod y cyfnod strategol sydd i ddod, yn parhau i adeiladu ecosystem gefnogol hirdymor ar gyfer llwyddiant entrepreneuraidd.

**4.1 Rhowch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chymorth sgiliau**

Gweler **Atodiad B: DPA yr Is-adran Fasnachol**; a,

Gweler **Atodiad C: DPA yr Is-adran Menter**

**5. Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

*Amlinellwch sut y bydd CAYC yn cefnogi gweithgaredd parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig seiliedig ar le yn eang, gan ymgorffori ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau AU-AB mewn sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ymchwil, a helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth i'r gymuned o fewn adeiladau'r brifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Mae canllawiau pellach ar yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylid fframio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd i Gymru.*

[Uchafswm o 500 gair]

**Cyflwyniad**

Bydd CAYC yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi mentrau parhaus a newydd o fewn y brifysgol a'r cymunedau rydym yn ymgysylltu â nhw.

Mae Is-adran Ymgysylltu Dinesig INSPIRE, ynghyd ag unigolion allweddol yn y brifysgol fel ein Profostiaid, Uned Ystadau, a'r gymuned academaidd, yn ymroddedig i hyrwyddo ymrwymiad y brifysgol i genhadaeth ddinesig, arferion cynaliadwy a hyrwyddo polisi ac arferion yn y maes hwn.

Mae ein dull cyffredinol o gefnogi cenhadaeth ddinesig yn cyd-fynd â nodau strategol y brifysgol. Byddwn yn parhau i ddarparu arweiniad a chymorth ar weithredu Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at amcanion y brifysgol ac yn cadw at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (UN SDG).

**Rhanddeiliaid**

Mae cydweithredu â rhanddeiliaid amrywiol, yn fewnol ac yn allanol, yn hanfodol i'n gwaith. Ein nod yw mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, cefnogi anghenion sgiliau diwydiant, cymryd rhan mewn partneriaethau Addysg Uwch-Addysg Bellach, hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd trwy weithgareddau a dargedwyd, a chyfrannu at les cyffredinol ein cymunedau. Er enghraifft, byddwn yn ymgysylltu/partneru â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth gan fod hyn yn ein galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu dinesig ac effaith gymdeithasol ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Drwy CAYC, byddwn yn defnyddio adnoddau i gefnogi gweithgareddau parhaus a newydd o fewn ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghenion sgiliau diwydiant, meithrin partneriaethau rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i feithrin datblygu sgiliau, arloesi ac ymgysylltu. Bydd allgymorth cyhoeddus drwy fentrau ymchwil yn galluogi i'n harbenigedd academaidd gyfrannu'n effeithiol at fynd i'r afael â heriau cymdeithasol.

**Myfyrwyr PCYDDS**

Mae sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â gweithgareddau dinesig yn ganolog i'n dull gweithredu. Er enghraifft, byddwn yn partneru â sefydliadau Cenedlaethol, cwmnïau budd cymunedol (CIC), a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), i gynnig cyfleoedd ystyrlon i'n myfyrwyr i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli estynedig ac annog cyfranogiad gweithredol mewn prosiectau ymgysylltu dinesig. Ar ben hynny, trwy fentrau fel Rhaglen Interniaeth INSPIRE a'n polisi gwirfoddoli arbennig ar gyfer myfyrwyr prifysgol, byddwn yn grymuso myfyrwyr i gyfrannu at eu cymunedau wrth feithrin eu datblygiad personol a phroffesiynol.

Ar gyfer y cyfnod strategol hwn, bydd y tîm Ymgysylltu Dinesig yn dechrau cyflwyno Prosiectau Datblygiadol wedi'u targedu at oedolion ifanc 16-25 oed, gan roi cyfleoedd deniadol iddynt mewn mentrau sy'n gysylltiedig â thechnoleg. Er enghraifft, rydym eisoes wedi dechrau cynllunio menter Chwarae eGemau uchelgeisiol yn y rhanbarth sy'n canolbwyntio, ymhlith pethau eraill, ar ddatblygu eu sgiliau arwain a rheoli.

**Sbardunau Mewnol**

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio eiddo'r brifysgol i gefnogi amcanion cenhadaeth ddinesig. Trwy gynnal digwyddiadau, darlithoedd, a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, rydym yn creu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, cydweithio ac ymgysylltu rhwng y brifysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, bydd y tîm Dinesig yn:

1. Cefnogi ein Profostion ar draws campysau Llanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd, gan sicrhau bod gweithgareddau ar y campws, datblygiad seilwaith (h.y, Canolfan Tir Glas, Matrics Arloesi, Yr Egin 1&2, ac ati.), ac ymdrechion ymgysylltu dinesig yn cyd-fynd â'n cenhadaeth.
2. Cefnogi ein Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar elfennau dinesig, drwy hyrwyddo a chefnogi ystod eang o weithgareddau cysylltiedig ag elfennau dinesig (h.y. myfyrwyr yn ymwneud â phrosiectau cloddio cymunedol ac arweinyddiaeth ieuenctid).

Gyda chefnogaeth CAYC, byddwn yn parhau i sbarduno mentrau sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, cyfrannu at ddatblygiad rhanbarthol, ac yn grymuso unigolion i gael effaith gadarnhaol ar eu cymunedau.

**5.1 Rhowch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Gweler **Atodiad D: DPA yr Is-adran Ymgysyllu Dinesig**

## Adran C: Cyd-fynd â pholisi a blaenoriaethau

### 6. Cyd-fynd â Pholisi Cymru a'r DU

*Disgrifiwch sut mae eich strategaeth CAYC yn cyd-fynd â pholisïau perthnasol ar lefel ranbarthol, Cymru, a'r DU sy'n seiliedig ar le megis e.e. dinas-ranbarth leol / bargeinion twf rhanbarthol. (Gweler Cylchlythyr W23/12HE, paragraff 30)*

[Uchafswm o 500 gair]

Mae strategaeth a gweithgareddau gweithredol CAYC INSPIRE yn cyd-fynd â ac yn ategu llawer iawn o strategaethau a blaenoriaethau arloesedd Cymru a'r DU yn uniongyrchol. Dyma ddadansoddiad o sut mae ein gweithgareddau CAYC yn cyd-fynd â'r dirwedd ehangach:

1. **Strategaeth Ymchwil ac Arloesi:** Mae gweithgareddau Is-Adran Ymchwil INSPIRE, megis datblygu polisi, datblygu ceisiadau, a sicrhau cyllid, yn cyfrannu at y strategaethau ymchwil ac arloesi a amlinellir gan Lywodraeth Cymru (Strategaeth Arloesi, Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN)), a Llywodraeth y DU (Strategaeth Arloesi, Strategaeth UKRI, ac ati...) trwy sbarduno rhagoriaeth ymchwil, meithrin cydweithio, a chefnogi twf proffesiynol ymchwilwyr. Mae PCYDDS yn cyd-fynd â'r amcan o hyrwyddo ymchwil ac arloesi.
2. **Sgiliau a Datblygiad Proffesiynol:** Mae gweithgareddau PCYDDS o ran datblygu ymchwilwyr, dysgu parhaus, a datblygiad proffesiynol yn cyd-fynd â'r ffocws ar ddatblygu talent a sgiliau. Trwy gefnogi ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol yn eu twf a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, mae PCYDDS yn cyfrannu at adeiladu gweithlu medrus a meithrin diwylliant o arloesi.
3. **Masnacheiddio a Chynhyrchu Incwm:** Mae gweithgareddau Is-Adran Fasnachol INSPIRE yn canolbwyntio ar feithrin arloesedd, hyrwyddo ymgysylltu â diwydiant, a chefnogi datblygu a rheoli prosiectau. Trwy hwyluso partneriaethau mewn meysydd sectoraidd allweddol (h.y. Peirianneg a Gweithgynhyrchu, Iechyd, ac ati), darparu cymorth mewn datblygu eiddo deallusol, a datblygu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fusnes, mae PCYDDS yn cyfrannu at flaenoriaethau masnacheiddio a chynhyrchu incwm Llywodraeth Cymru (h.y., Bargeinion Twf Canolbarth Cymru a Bae Abertawe) a Llywodraeth y DU (h.y. Ffyniant Bro).
4. **Entrepreneuriaeth a Chymorth i Fenter:** Mae gweithgareddau Is-adran Menter INSPIRE megis darparu mannau deori, cynnig rhaglenni addysgol, a darparu buddsoddiad ariannol, yn cyd-fynd â'r ffocws ar feithrin entrepreneuriaeth a chymorth menter. Mae ymdrechion PCYDDS i gydnabod a chefnogi hyrwyddwyr menter academaidd, sefydlu rhaglenni ariannu, a chydweithio â Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at amcanion ehangach hyrwyddo entrepreneuriaeth a chefnogi busnesau newydd.

5. **Ymgysylltu Dinesig ac Arferion Cynaliadwy:** Mae gweithgareddau Is-adran Ymgysylltu Dinesig INSPIRE yn cyd-fynd â'r ffocws ar genhadaeth ddinesig ac arferion cynaliadwy. Trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cydweithio â sefydliadau, a chynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau ymgysylltu dinesig (h.y., prosiectau diwylliannol/treftadaeth), mae PCYDDS yn cyfrannu at flaenoriaethau effaith gymdeithasol llywodraethau Cymru a'r DU (h.y. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU).
6. **Cydweithrediad a Rhwydweithiau:** Mae pwyslais PCYDDS ar gydweithio, o fewn y brifysgol a chyda sefydliadau allanol, yn cyd-fynd â'r ffocws ar gydweithio a rhwydweithiau yn y strategaethau ehangach. Trwy gymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau (h.y., WIN, Cymru Fyd-eang), partneru â sefydliadau (Llywodraeth a Phreifat), ac ymgysylltu â phartneriaid yn y trydydd sector, mae PCYDDS yn meithrin cydweithrediad a chyfnewid gwybodaeth, sy'n hanfodol ar gyfer sbarduno arloesedd a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol cenedlaethol a rhyngwladol.
7. **Datblygu Rhanbarthol:** Mae gweithgareddau PCYDDS mewn masnacheiddio, ymgysylltu dinesig a chydweithio â sefydliadau rhanbarthol yn cyfrannu at flaenoriaethau datblygu rhanbarthol. Trwy gefnogi gweithgareddau economaidd, defnyddio cyfleoedd ariannu (h.y., Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU), ac ymgysylltu â byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae PCYDDS yn chwarae rhan wrth ysgogi twf a datblygiad rhanbarthol.

| **7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** |
|---|
| *Rhowch wybodaeth benodol ar sut y bydd strategaeth CAYC yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;* [Uchafswm o 250 gair] |

Mae CAYC yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi PCYDDS i gyflawni'r saith nod a'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dyma enghreifftiau penodol o sut mae strategaeth CAYC y brifysgol yn cyd-fynd â'r Ddeddf:

1. **Ffocws hirdymor:** Mae strategaeth CAYC PCYDDS yn canolbwyntio ar weithgareddau ymchwil, arloesi a menter sy'n cael effeithiau hirdymor ar gymdeithas a chenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, mae Is-adran Ymchwil INSPIRE yn blaenoriaethu rhagoriaeth ymchwil ar draws disgyblaethau, gan gynnwys meysydd fel STEM, addysg, seicoleg, a dylunio ar gyfer gwyddorau bywyd. Mae'r pwyslais hwn ar ymchwil o ansawdd uchel yn cyfrannu at les cymdeithasol hirdymor.
2. **Atal:** Mae strategaeth CAYC PCYDDS yn hyrwyddo dulliau a thechnolegau arloesol i fynd i'r afael â heriau'r byd go iawn. Mae Is-adran Fasnachol INSPIRE yn ymgysylltu â Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, sy'n hwyluso cydweithio rhwng ymchwilwyr academaidd a busnesau i drosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd at ddibenion masnachol. Trwy fynd i'r afael yn rhagweithiol â heriau drwy arloesi, mae'r brifysgol yn cyfrannu at atal problemau yn y dyfodol a gwella llesiant.
3. **Integreiddio:** Mae PCYDDS yn meithrin cydweithio a phartneriaethau gydag ystod eang o sefydliadau allanol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol (h.y., rhwydwaith UNESCO/Bridges). Mae Is-adran Fasnachol INSPIRE a rolau allanol eraill (h.y. Profostion y Brifysgol) yn canolbwyntio ar sefydlu partneriaethau strategol gyda sefydliadau allanol trwy amrywiol fentrau sy'n seiliedig ar bartneriaeth fel Tir Glas a'r Matrics Arloesi. Mae'r cydweithrediad hwn yn helpu i integreiddio sgiliau ac adnoddau, gan sicrhau dull cyfannol o ymdrin â llesiant.
4. **Cydweithio:** Mae strategaeth CAYC yn annog cydweithio yn weithredol rhwng gwahanol randdeiliaid, megis sefydliadau addysg uwch, diwydiannau a chymunedau. Mae Is-adran Ymgysylltu Dinesig INSPIRE yn cydweithio â byrddau gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau cenedlaethol, a phartneriaid trydydd sector i sbarduno mentrau ymgysylltu dinesig effeithiol. Drwy gydweithio, mae PCYDDS yn gwella ei heffaith gymdeithasol ac yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol.
5. **Cynnwys:** Mae PCYDDS yn rhoi pwyslais ar gynnwys myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach mewn gweithgareddau ymchwil, arloesi a menter. Er enghraifft, mae Is-adran Menter INSPIRE yn cynnig Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Menter, gan ddarparu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer menter i

ddarpar entrepreneuriaid a chronfa bwrpasol ar gyfer datblygu busnesau newydd yn y dyfodol. Mae'r Is-adran Ddinesig yn cefnogi myfyrwyr i wirfoddoli drwy fentrau fel rhaglen Interniaid INSPIRE. Drwy gynnwys rhanddeiliaid amrywiol, mae PCYDDS yn sicrhau dull cyfranogol a chynhwysol o ymdrin â llesiant.

Mae pwyslais y brifysgol ar ragoriaeth ymchwil, arloesedd, cydweithio a chyfranogiad yn dangos ei hymrwymiad i sbarduno newid cadarnhaol a chyfrannu at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

| **8. Effaith ar y Gymraeg** |
| --- |
| *Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiad CAYC yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol efallai yr hoffech gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu* Cymraeg 2050 . <br> [Uchafswm o 250 gair] |
| Bydd buddsoddiad CAYC yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg o safbwynt Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Mae CAYC yn darparu adnodd gwerthfawr i hyrwyddo'r nodau a amlinellir yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050, sy'n ceisio hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg. Trwy fuddsoddiad CAYC, bydd PCYDDS yn gallu: <br><br> 1. **Addysg:** Mae PCYDDS wedi ymrwymo i ehangu ei mentrau a'i gweithgareddau mewn perthynas ag addysg, fel y trafodwyd yn flaenorol, i gefnogi defnydd a datblygiad y Gymraeg tra hefyd yn cyfrannu at yr agenda addysg ehangach. Mae'r buddsoddiad hwn yn galluogi'r brifysgol i wella ei rhaglenni addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynyddu mynediad at addysg Gymraeg o ansawdd uchel a hyrwyddo dysgu iaith. Trwy fuddsoddi mewn addysg Gymraeg a chymryd rhan weithredol mewn mentrau fel Camau i'r Dyfodol, prosiect ymchwil cenedlaethol, mewn partneriaeth â Phrifysgol Glasgow, ar ddilyniant yn y cwricwlwm newydd sy'n cynnwys rhanddeiliaid ar draws system addysg a darpariaeth Cymru, mae PCYDDS nid yn unig yn cyfrannu at y nod o gynyddu siaradwyr Cymraeg a meithrin cenedl ddwyieithog, fel yr amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Cymraeg 2050, ond mae hefyd yn ymwneud ag ymchwil a chydweithio addysgol ehangach. <br> 2. **Gweithgareddau:** Cefnogi ymgysylltu cymunedol a mentrau diwylliannol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd y buddsoddiad yn hwyluso trefnu digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau cymunedol sy'n annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcan o gryfhau cymunedau Cymraeg a chynyddu gwelededd a statws y Gymraeg, fel yr amlygir yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050. <br> 3. **Mannau:** Cefnogi creu mannau dwyieithog o fewn y brifysgol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i wahanol agweddau ar fywyd campws. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo gwasanaethau, arwyddion a llwyfannau digidol dwyieithog sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cyfrannu at greu amgylchedd dwyieithog. <br> 4. **Dwyieithrwydd:** Mae tîm INSPIRE yn PCYDDS, gyda galluoedd yn y Gymraeg ar draws pob campws, wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â nodau strategol y Brifysgol a chynllun gweithredu Cymraeg 2050. <br><br> At ei gilydd, bydd buddsoddiad CAYC yn grymuso PCYDDS i gymryd camau rhagweithiol o ran ymateb i Gynllun Gweithredu Cymraeg 2050. Bydd y buddsoddiad yn meithrin diwylliant o ddwyieithrwydd, yn cryfhau cymunedau Cymraeg, ac yn y pen draw yn cyfrannu at ffyniant cymdeithasol, diwylliannol ac |

| |
|---|
| economaidd Cymru fel cenedl ddwyieithog. |

| **Adran D: Defnyddio Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru** |
|---|
| *Sut mae eich dyraniad CAYC 2023/24 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a nodir yn Adran B, a beth yw eich blaenoriaethau disgwyliedig ar gyfer defnyddio cronfeydd CAYC yn y dyfodol?*<br>[Uchafswm o 250 gair – neu atodwch dabl yn amlinellu meysydd buddsoddi eang] |
| Bydd dyraniad CAYC y brifysgol ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddefnyddio gan dîm INSPIRE fel a ganlyn:<br>1. Bydd yr Is-adran Ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu portffolio ymchwil ac arloesi'r brifysgol drwy weithgareddau fel datblygu cynigion ymchwil, sicrhau cyllid, a meithrin cydweithio â phartneriaid allanol. Er enghraifft, drwy ein Cronfa Datblygu Rhaglen Cyflymydd Ymchwil ac Effaith (RIAP) byddwn yn cefnogi:<br>a. Datblygu Ymchwil<br>b. Datblygu Ymchwil Gyrfa Gynnar<br>c. Mynychu Cynadleddau<br>d. Cyflymyddion Effaith<br>e. Cydweithredu Rhyngwladol<br>f. Cronfa Sgiliau Ymchwilwyr<br>2. Bydd yr Is-adran Fasnachol yn defnyddio cronfeydd CAYC i feithrin arloesedd, cefnogi datblygu prosiectau, a hwyluso ymgysylltu â diwydiant. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis sefydlu partneriaethau, datblygu strategaethau marchnata, a chefnogi prosiectau datblygu cyfalaf. Er enghraifft, byddwn yn cadarnhau ein perthynas â'n Hathrofeydd yng Nghymru, sef:<br>a. Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru (WISA);<br>b. Athrofa Rheolaeth ac Iechyd (IMH); ac<br>c. Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau (IEH).<br>3. Bydd yr Is-adran Menter yn darparu cefnogaeth i entrepreneuriaid a busnesau newydd trwy gynnig mannau deori, rhaglenni addysgol, a chyfleoedd buddsoddi ariannol. Er enghraifft, mae ein rhaglen Cronfa'r Dyfodol yn darparu cymorth ariannol i staff a myfyrwyr ar gyfer mentrau entrepreneuraidd.<br>4. Nod yr Is-adran Ymgysylltu Dinesig yw hyrwyddo ymrwymiad y brifysgol i genhadaeth ddinesig a chynaliadwyedd trwy gydweithio â rhanddeiliaid a hyrwyddo effaith gymdeithasol. Bydd cronfeydd CAYC yn cael eu defnyddio i gefnogi mentrau sy'n cyd-fynd â nodau strategol y brifysgol, ymgysylltu â byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a chynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau ymgysylltu dinesig. |

Yn y blynyddoedd i ddod, mae ein blaenoriaethau disgwyliedig ar gyfer defnyddio cronfeydd CAYC yn cynnwys sbarduno rhagoriaeth ymchwil, meithrin arloesedd ac entrepreneuriaeth, hyrwyddo ymgysylltu â diwydiant, cefnogi datblygu rhanbarthol, a hyrwyddo mentrau cenhadaeth ddinesig. Lle bo'n bosibl, byddwn yn teilwra ein gweithgareddau i ymateb i strategaethau cenedlaethol a rhyngwladol, addasu i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a cheisio cyfleoedd ar gyfer cydweithredu. Byddwn hefyd yn trosoli ffynonellau cyllid allanol ac yn gwella ein systemau cymorth a'n seilwaith i sicrhau bod cronfeydd CAYC yn cael yr effaith fwyaf wrth gyflawni ein hamcanion strategol.

## Adran E: Gofynion Rheoleiddiol

*DS: Gall CCAUC ofyn am ragor o wybodaeth / eglurhad ar unrhyw un o'r meysydd hyn*

| | |
|---|---|
| i) Safonau'r Gymraeg (2018)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018 |
| ii) Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Cynhaliwyd Asesiad o Effaith y strategaeth hon ar Gydraddoldeb |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 |

**Yr wyf yn cadarnhau bod y Brifysgol wedi ymrwymo i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'i bod yn gwbl ymrwymedig i'w wyth egwyddor arweiniol.**

| | |
|---|---|
| **Llofnod:**<br>**Is-Ganghellor** | |
| **Dyddiad** | 28 Mehefin 2023 |

## Atodiad A: Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Is-adran Ymchwil

| | | | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Is-adran Ymchwil INSPIRE | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau** | | **Ffynhonnell / disgrifiad** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | Cyfanswm |
| **Datblygu Ymchwilwyr** | | | | | | | | |
| **RD1** | Sefydlu a chynnal y seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr newydd | **MESUR:** Dadansoddiad o Fylchau a Chynllun Gweithredu'r Concordat yn cael ei gwblhau ac yna ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae cyfres o adnoddau datblygu ar gael i staff ymchwil ac yn cael eu hadolygu/diweddaru/ehangu yn ôl yr angen. | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **RD2** | Mae'r holl staff sydd â chyfrifoldeb sylweddol am ymchwil (SRR) yn ymwneud â'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr | **MESUR:** Nifer y gweithgareddau datblygu a gwblhawyd gan staff PCYDDS. (Staff wedi'u Hyfforddi) | 150 | 175 | 200 | 225 | 250 | **1000** |
| **RD3** | Polisi Cymell PCYDDS ar waith | **MESUR:** Mae'r Polisi Cymell yn cael ei fabwysiadu a'i ddiweddaru'n flynyddol yn dilyn hynny. | N | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Effaith** | | | | | | | | |
| **RD4** | Ymgorffori arferion arloesi ar draws y portffolio ymchwil i gynyddu effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ymchwil mewn meysydd diffiniedig | **MESUR:** Gweithgaredd ymchwil, cyfnewid gwybodaeth neu arloesi y nodwyd ei fod yn cael effaith bosibl (fel y'i diffinnir gan REF) ac sy'n cael ei gefnogi a'i ddatblygu'n weithredol gan y ganolfan ymchwil y mae'n deillio ohoni. (Nifer y prosiectau neu fentrau). | 5 | 4 | 4 | 4 | 3 | **20** |
| **Prosiectau** | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RD5** | Datblygu profiad sefydliadol ac ymchwilwyr mewn cyllid ymchwil cystadleuol (yn enwedig UKRI) | **MESUR:** Ceisiadau am gyllid ymchwil yn cael eu cefnogi a’u cyflwyno (Nifer y ceisiadau) | 20 | 20 | 25 | 25 | 30 | **120** |

# Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Is-adran Fasnachol

| | | | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Is-adran Fasnachol INSPIRE | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau** | | **Ffynhonnell / disgrifiad** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **Cyfanswm** |
| **Gweithrediadau Masnachol** | | | | | | | | |
| **COM1** | Sefydlu a chynnal proses ar gyfer staff sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n wynebu diwydiant i nodi a hwyluso cyfleoedd priodol | **MESUR:** Nifer y cyfleoedd newydd a chyfleoedd o 'ansawdd' a nodwyd (gan ystyried cyfradd trosi cyfleoedd a'r amser i drosi). Wedi'i olrhain trwy CMS sefydliadol. (Cwmnïau yr ymgysylltwyd â hwy) | 20 | 40 | 40 | 40 | 40 | **180** |
| **COM2(a)** | Sefydlu a chynnal ystorfa INSPIRE ar gyfer yr holl geisiadau cyllid/tendro. | **MESUR:** Datblygu pecyn o adnoddau i'w defnyddio i gefnogi ceisiadau cyllid/tendr/trosglwyddo gwybodaeth, gan gynnwys modiwlau hyfforddi ar Moodle. Adolygu/diweddaru/ehangu yn ôl yr angen. (Adnodd Canolog) | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | **4** |
| **COM2(b)** | Datblygu hyfforddiant i'r holl staff sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gontractau ariannu neu gontractau masnachol. | **MESUR:** Nifer y gweithwyr newydd neu bresennol sy'n ymgymryd â **hyfforddiant datblygu ceisiadau** mewnol neu allanol. (Nifer staff PCYDDS) | 10 | 15 | 20 | 25 | 30 | **100** |
| **COM3(a)** | Datblygu pecyn cymorth hyfforddi ar gyfer arweinwyr prosiectau a staff allweddol prosiectau ar: Rheoli Prosiectau, Rheoli Ariannol, Caffael, Rheoli Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, Archwiliadau, ac ati ... | **MESUR:** Nifer y **pecynnau cymorth sy'n gysylltiedig â phrosiect** a ddatblygwyd ac a ddiweddarwyd (**Rheoli Prosiectau, Rheoli Ariannol, Caffael, Rheoli Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, Archwilio)** (Pecynnau cymorth wedi'u creu) | 0 | 2 | 1 | 1 | 1 | **5** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COM3(b)** | Darparu hyfforddiant ar y pecyn cymorth i arweinwyr prosiectau a staff allweddol prosiectau ar reoliadau ariannol, caffael, Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch ac ati. | **MESUR:** Nifer y gweithwyr sy'n ymgymryd â **hyfforddiant yn** y meysydd canlynol: **Rheoli Prosiectau, Rheoli Ariannol, Caffael, Rheoli Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, Archwiliadau, ac ati ...** (Nifer staff PCYDDS) | 0 | 5 | 10 | 15 | 20 | **50** |
| **COM4** | Datblygu hyfforddiant i arweinwyr prosiectau a staff prosiectau allweddol ar ffurflenni data HEBCIS gan gynnwys grantiau ymchwil, incwm masnachol a grant, DPP/hyfforddiant ac ati. | **MESUR:** Nifer y gweithwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant rheoli data HEBCIS (Nifer Staff PCYDDS) | 0 | 10 | 10 | 15 | 20 | **55** |
| **COM5** | Cefnogi staff sydd â diddordeb i fanteisio ar byrth caffael / ariannu ar-lein (h.y. pyrth cenedlaethol / rhyngwladol, cyswllt ymchwil, ac ati...) | **MESUR:** Nifer y staff a gefnogir (Nifer Staff PCYDDS) | 3 | 7 | 10 | 15 | 20 | **55** |
| **COM6** | Cefnogi staff i wneud cais am gyllid prosiect / tendrau masnachol / Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth / Partneriaethau Smart ac ati. | **MESUR:** Cyfanswm nifer y ceisiadau a gefnogwyd (a gyflwynwyd ac na chyflwynwyd) | 25 | 15 | 20 | 25 | 30 | **115** |
| **Ymgysylltu** | | | | | | | | |
| **COM7** | Codi ymwybyddiaeth o ymgysylltu â diwydiant a chyfleoedd i gydweithio yn fewnol ac yn allanol | **MESUR:** Digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant, teithiau, ymweliadau, gweithdai, a chynadleddau. (Nifer y Digwyddiadau) | 15 | 15 | 20 | 25 | 25 | **100** |
| **COM8** | Cynyddu ymgysylltiad â chyflogaeth, cyflogadwyedd a datblygu piblinell o gymdeithion ymchwil | **MESUR:** Nifer y leoliadau diwydiant i fyfyrwyr a graddedigion/prosiectau a hwylusir gyda diwydiant. (Lleoliadau i Raddedigion gyda Diwydiant) | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | **150** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COM9** | PCYDDS: Llysgenhadon Effaith ac Ymgysylltu | **MESUR:** Nifer y Llysgenhadon a Recriwtiwyd i rolau effaith ac ymgysylltu gydag is-adrannau ymchwil, masnachol, menter a dinesig INSPIRE. | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | **100** |
| **COM10** | PCYDDS: Bwrdd Masnacheiddio | **MESUR:** Bwrdd Masnacheiddio yn weithredol | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | **8** |

# Atodiad C: Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Is-adran Menter

| | | | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Is-adran Menter INSPIRE | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau** | | **Ffynhonnell / disgrifiad** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **Cyfanswm** |
| **Gweithgareddau Dechrau Busnes** | | | | | | | | |
| **ENT1(a)** | Gweithgaredd deillio: mentrau deillio newydd a mentrau deillio sy'n dal i fod yn weithredol ar ôl o leiaf 3 blynedd | **MESUR:** Mesurau Cenedlaethol (HE-BCI): Mae'r targed yn cysylltu â Mentrau Deillio newydd (Mentrau Deillio) | 1 | 2 | 3 | 3 | 3 | **12** |
| **ENT1(b)** | | **MESUR:** Mesurau Cenedlaethol (HE-BCI): Mae'r targed yn cysylltu â Mentrau Deillio newydd sy'n weithredol ar ôl o leiaf 3 blynedd | 0 | 1 | 2 | 3 | 3 | **9** |
| **ENT2(a)** | Gweithgaredd cychwyn busnes (graddedigion), busnesau hollol newydd a busnesau newydd sy'n dal i fod yn weithredol ar ôl o leiaf 3 blynedd | **MESUR:** Mesurau Cenedlaethol (HE-BCI): Mae'r targed yn cysylltu â Busnesau Newydd | 50 | 60 | 60 | 70 | 70 | **310** |
| **ENT2(b)** | | **MESUR:** Mesurau Cenedlaethol (HE-BCI): Cydgrynhoi ffigurau busnesau newydd 3+ a adroddwyd ar gyfer HE-BCI 21/22, o **874 (Gwaelodlin)** | 880 | 900 | 925 | 950 | 1000 | **1000** |
| **ENT3** | Datblygu cwmnïau deillio, trwyddedu ac incwm Eiddo Deallusol arall | **MESUR:** Nifer y gweithgareddau ecsbloetio Eiddo Deallusol, megis cwmnïau deillio, busnesau newydd a chytundebau trwyddedu Eiddo Deallusol. | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | **6** |
| **Rhagoriaeth Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth** | | | | | | | | |
| **ENT4** | Datblygu ymchwil darganfod sy'n cael ei yrru gan chwilfrydedd (ac RE2) ac ymchwil sy'n seiliedig ar her mewn addysg entrepreneuraidd | **MESUR:** Allbynnau sy'n bodloni diffiniadau REF o ymchwil, fel yr amlinellir ar gyfer IICED yn y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. Er enghraifft, Papurau Ymchwil Menter (2*+) | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 | **7** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ENT5** | Menter Gymdeithasol, Sgiliau Busnes a Chyflogadwyedd | **MESUR:** Prosiectau ymchwil a phrosiectau cyfnewid gwybodaeth wedi'u diffinio sy'n cefnogi datblygiad menter gymdeithasol, sgiliau busnes a chyflogadwyedd, neu'n cefnogi cyfleoedd arloesi cymdeithasol ac entrepreneuriaeth i israddedigion (ôl-raddedigion, cefnogir staff hefyd). | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **5** |
| **Cyllid** | | | | | | | | |
| **ENT6** | Cymorth i gynyddu nifer y busnesau sy'n cael mynediad at gymorth ariannol ar gyfer arloesi gyda'r Brifysgol. | **MESUR:** Ceisiadau am gyllid cydweithredol yn cael eu cyflwyno gyda busnes ar gyfer **ymchwil, datblygu ac arloesi.** | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | **9** |
| **ENT7** | Cefnogi datblygiad ymchwil contract ac ymgynghoriaeth gyda diwydiant, busnes, sefydliadau cyhoeddus neu drydydd sector. | **MESUR:** Tendrau, dyfynbrisau a cheisiadau yn cael eu cyflwyno ar gyfer **ymchwil contract ac ymgynghoriaeth.** | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | **9** |

# Atodiad D: Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Is-adran Ymgysylltu Dinesig

| | | | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Is-adran Ymgysylltu Dinesig INSPIRE | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau** | | **Ffynhonnell / disgrifiad** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **Cyfanswm** |
| **Datblygu Prosiectau** | | | | | | | | |
| **CE1** | Cefnogaeth Ymgysylltu Dinesig ar gyfer prosiectau PCYDDS. | **MESUR:** Nifer prosiectau newydd y Brifysgol yr ymgynghorwyd/ymgysylltwyd yn eu cylch â'r Tîm Ymgysylltu Dinesig mewn partneriaeth ag:<br>a) Is-adrannau Ymchwil, Masnachol a Menter; ac<br>b) y brifysgol ehangach (h.y. Profostion, Athrofeydd, ac ati...) (Prosiectau wedi'u Cefnogi) | 5 | 10 | 15 | 15 | 20 | **65** |
| **CE2** | Datblygu prosiectau Ymgysylltu Dinesig ar draws pob campws. | **MESUR:** Nifer y ceisiadau llwyddiannus am gyllid prosiect sy'n eiddo i'r Tîm Ymgysylltu Dinesig neu'n cael eu harwain gan y tîm. (Prosiectau wedi'u Cyflwyno) | 5 | 10 | 15 | 15 | 20 | **65** |
| **Ymgysylltu â Myfyrwyr** | | | | | | | | |
| **CE3 (a)** | Interniaid / Llysgenhadon PCYDDS | **MESUR:** Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer Interniaethau Myfyrwyr **INSPIRE**:<br>i) Cynaliadwyedd<br>ii) Cenhadaeth Ddinesig (Cyfanswm Ceisiadau a dderbyniwyd) | 75 | 80 | 80 | 85 | 85 | **405** |
| **CE3 (b)** | Cefnogaeth Ymgysylltu Dinesig ar gyfer prosiectau PCYDDS. | **MESUR:** Nifer yr Interniaid INSPIRE ar gyfer y Brifysgol:<br>i) Cynaliadwyedd<br>ii) Cenhadaeth Ddinesig (Cyfanswm Ceisiadau a dderbyniwyd) | 28 | 28 | 35 | 35 | 40 | **166** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CE3 (c)** | Cefnogaeth Ymgysylltu Dinesig ar gyfer prosiectau PCYDDS. | **MESUR:** Nifer y prosiectau sy'n rhan o /sy'n cael eu cynnal/arwain gan Lysgenhadon Staff Ymgysylltu Dinesig (Prosiectau a Gynhaliwyd ac Astudiaethau Achos a ysgrifennwyd) | 6 | 6 | 8 | 8 | 9 | **37** |
| **CE3 (a)** | Datblygu Proffil Rhyngwladol | **MESUR:** Nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n gwneud cais am Interniaeth INSPIRE (Nifer y Myfyrwyr) | 6 | 6 | 7 | 8 | 9 | **36** |
| **CE3 (b)** | Datblygu Proffil Rhyngwladol | **MESUR:** Nifer yr Interniaid INSPIRE llwyddiannus sy'n Fyfyrwyr rhyngwladol (Nifer y Myfyrwyr) | 4 | 4 | 5 | 6 | 6 | **25** |
| **Polisi** | | | | | | | | |
| **CE4** | Ymgorffori arferion Ymgysylltu Dinesig ar draws y brifysgol i gynyddu effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Ymgysylltu Dinesig. | **MESUR:** Sicrhau bod y Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig wedi'i wreiddio yn y dogfennau canlynol:<br>i) Strategaeth PCYDDS<br>ii) Strategaeth Ymchwil ac Arloesi<br>iii) Cynlluniau Strategol/Gweithredol y Sefydliad | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| **Ymgysylltu Allanol a Chodi Ymwybyddiaeth** | | | | | | | | |
| **CE5 (a)** | Adeiladu partneriaethau drwy gydweithio ag ymchwilwyr, busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector | **MESUR:** Nifer y cyfleoedd ymgysylltu â rhwydweithiau allanol a gyflawnir gan y Tîm Ymgysylltu Dinesig, gyda sefydliadau fel:<br>i) Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru<br>ii) Rhwydwaith Gwirfoddoli Ieuenctid<br>iii) Rhwydwaith Gwirfoddoli Myfyrwyr Cymru<br>iv) Rhwydweithiau Gwerth Cymdeithasol / Ffocws Cymunedol Eraill (Nifer y Digwyddiadau) | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | **70** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CE5 (b)** | Adeiladu partneriaethau drwy gydweithio ag ymchwilwyr, busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector | **MESUR:** Nifer y cyfleoedd ymgysylltu Partneriaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Tîm Ymgysylltu Dinesig<br>yn y rhanbarthau canlynol:<br>i) Caerfyrddin<br>ii) Abertawe<br>iii) Llanbedr Pont Steffan | 12 | 12 | 12 | 12 | 12 | **60** |
| **CE5 (c)** | Cryfhau trefniadau cydweithredol gyda phrifysgolion yng Nghymru i ddatblygu màs critigol. | **MESUR:** Nifer y cyfleoedd ymgysylltu â rhwydweithiau allanol a gyflawnir gan y Tîm Ymgysylltu Dinesig, i gynnwys:<br>i) Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru<br>ii) Gweithgareddau Eraill ar Draws Prifysgolion | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | **20** |
| **CE6** | Parhau â'r trefniadau 'Adduned' gyda phartneriaid awdurdodau lleol. | **MESUR:** Nifer yr addunedau cenhadaeth ddinesig / cytundebau partneriaeth newydd a sefydlwyd gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | **10** |
| **CE7** | Ysgolion Uwchradd yn cymryd rhan mewn prosiectau Cenhadaeth Ddinesig | **MESUR:** Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n ymwneud â phrosiectau dan arweiniad CM (h.y., Chwarae eGemau) | 4 | 10 | 12 | 12 | 12 | **50** |
| **CE8** | Digwyddiadau, darlithoedd, a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned dan arweiniad y Genhadaeth Ddinesig. | **MESUR:** Nifer y digwyddiadau dan arweiniad, darlithoedd, a digwyddiadau yn canolbwyntio ar y gymuned gydag elfen o gyfnewid gwybodaeth. | 6 | 12 | 12 | 12 | 12 | **54** |
| **Gwirfoddoli** | | | | | | | | |
| **CE9** | Gwirfoddoli Myfyrwyr PCYDDS | **MESUR:** Nifer y myfyrwyr a gafodd gymorth i ddod o hyd i leoliadau gwirfoddoli gan y Tîm Ymgysylltu Dinesig. | 20 | 25 | 30 | 40 | 50 | **165** |